



DARLLENWCH
Exodus 12: 31-39
a 14: 1-31



ADNOD
ALLWEDDOL
Exodus 14: 30

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon.

Stori 3 Moses a'r ddihangfa o'r Aifft

Yn ystod y noson honno, pan fu farw pob mab cyntaf-anedig ymhlith yr Eifftiaid, anfonodd Pharo am Moses ac Aaron. Dywedodd wrthynt am fynd â'u pobl, a'u defaid a'u gwartheg a gadael yr Aifft ar unwaith. O'r diwedd, roedd Pharo yn ufuddhau i Dduw! Pe bai e ond wedi gwneud hyn ar y dechrau, byddai wedi arbed llawer iawn o ddioddef!



C Ysgrifennwch CYWIR neu ANGHYWIR ar ôl pob un o'r canlynol:-

- Anfonodd Pharo am Moses ac Aaron y bore wedyn
- Dywedodd wrthynt am adael yr Aifft ar unwaith
- Dywedodd nad oedd yr Israeliaid i fynd â'u hanifeiliaid gyda nhw

6



Cyn hir, roedd yr Israeliaid ar eu ffordd. Gorymdeithiodd cannoedd o ddynion, merched a phlant i gyfeiriad y Môr Coch. Ond doedden nhw ddim wedi mynd yn bell pan newidiodd Pharo ei feddwl. Penderfynodd fynd â'i fyddin, a gorfodi'r Israeliaid i ddod nôl. Yn fuan, trodd hapusrwydd yr Israeliaid yn ofn, pan welsant gerbydau a marchogion yr Eifftiaid yn eu dilyn.

C Gosodwch y llythrennau cywir yn y brawddegau canlynol:

N _ w _ d _ _ d _ y Brenin Pharo ei feddwl.

I _ _ _ e l _ _ _ _ oedd yr enw ar y caethweision oedd yn ffoi.

Roedden nhw'n mynd i gyfeiriad y M _ _ _ _ _ h.

Aeth Pharo a'i g _ _ b _ _ a _ ar eu hôl.

4

Cododd ofn mawr ar yr Israeliaid. Roedden nhw'n teimlo eu bod nhw mewn magl, oherwydd roedd y môr o'u blaen a'r Eifftiaid o'u hôl. Dim ond Duw allai eu hachub! Cysurodd Moses y bobl drwy ddweud wrthyn nhw: "Byddwch gadarn ac edrychwch ar y waredigaeth y mae'r Arglwydd yn ei rhoi i chwi heddiw." Byddai Duw, meddai, drwy Ei allu rhyfeddol, yn edrych ar eu holau, ac yn eu hachub rhag yr Eifftiaid. Beth wnaeth Duw? Agorodd lwybr drwy ganol y Môr Coch! Chwythodd gwynt cryf o'r dwyrain drwy'r nos. Ciliodd y dŵr a throdd y môr yn dir sych. Doedd dim angen i'r Israeliaid wneud dim, dim ond ymddiried yn Nuw a cherdded i'r ochr arall!

C Gosodwch yr atebion i'r cliwiau hyn, yn y Grid Geiriau.

1. Roedd y gwynt yn chwythu o'r
2. Defnyddiwyd y gwynt gan Dduw i greu tir
3. Chwythodd y gwynt drwy'r
4. Rhannwyd y gan y gwynt.

	1	2		
			3	4
G	W	Y	N	T

Roedd yr Eifftiaid yn meddwl y gallen nhw ddilyn yr Israeliaid! I mewn â nhw ar gefn eu cerbydau a'u ceffylau i wely'r môr, ond trodd y dŵr yn ei ôl yn nerthol a boddwyd pob un ohonynt! Dyna beth oedd gwaredigaeth ryfeddol i'r Israeliaid!



Lliwchwch eiriau'r Adnod Allweddol.

“Achubodd yr Arglwydd Israel y diwrnod hwnnw.”



Exodus 14:30

Heddiw, mae Duw eisiau achub pob un ohonom ni oddi wrth ein pechodau. Dyna pam y rhoddodd Ef yr Arglwydd Iesu i farw drosom ni. Fel yr Israeliaid, rhaid i ni ymddiried Ynddo ac yna gallwn ddweud "Mae'r Arglwydd wedi F'ACHUB I!"